OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 163 (Cy.18)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*28 Ionawr 2004*
Yn dod i rym	- -	*31 Ionawr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 50(2), (3) a (4), 81(2) ac 81(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), ac ar ôl iddo ymgynghori fel sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 50(5) o'r Ddeddf honno a chael ei fodloni bod y Gorchymyn hwn yn gyson â'r egwyddorion a bennir am y tro mewn gorchymyn o dan adran 49(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 31 Ionawr 2004.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Gorchymyn 2001" ("*the 2001 Order*") yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001(**2**).

Diwygio Cod Ymddygiad Enghreifftiol

3.—(1) Mae paragraff 15(ch) yn yr Atodlen i Orchymyn 2001 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder y geiriau "lwfans neu bensiwn a wneir o dan" o flaen "Adran 18".

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) O.S. 2001/2289 (Cy. 177).